Adroddiad Arolygu ar

**Gwynfa**

**GWYNFA**
**LLANBEDR**
**LL45 2LE**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

14/09/2021

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gwynfa

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Lewis Jones Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae pobl sy'n byw yng nghartref Gwynfa yn derbyn gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion penodol ac unigryw. Mae staff gofal yn brofiadol, yn wybodus ac wedi'u hyfforddi i'w deall a'u trin gyda gwerth ac urddas. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod ganddynt ddigon i'w wneud. Mae ganddynt gyfleoedd amrywiol i fynegi eu dymuniadau, eu teimladau a'u pryderon, ac mae'r rheolwr yn gweithredu i sicrhau bod gofal yn addas ac yn hyrwyddo eu llesiant. Mae'r bobl wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus gyda'r staff gofal, sy'n eu hadnabod yn dda ac yn rhoi gofal cyson a pharchus.

Yn gyffredinol, gofelir am y bobl mewn amgylchoedd diogel sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Gallant ddewis yr addurniadau yn yr ystafelloedd gwely. Mae pobl yn teimlo'n gyfforddus oherwydd eu bod yn derbyn gofal mewn amgylchedd dymunol, cartrefol a glân.

Mae'r rheolaeth a'r arweinyddiaeth yn gryf; mae rolau wedi'u diffinio'n dda ac mae'r staff gofal yn uchel eu cymhelliant yn cael eu goruchwylio a'u hyfforddi'n briodol. Mae'r rheolaeth yn effeithiol o ran cyflwyno gwasanaeth sy'n cadw pobl yn ddiogel ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Mae’r rheolwr yn weithredol ym mywyd y cartref ac yn ymwybodol o'r gofal a ddarperir, gan arwain at systemau sicrhau ansawdd mewnol da.

## Llesiant

Mae pobl yn gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael i'w helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae gan bob unigolyn gynllun personol, sy'n cynnwys yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn y bydd staff gofal yn ei wneud i'w cefnogi. Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn gwrando ar farn a cheisiadau'r bobl ac yn gweithredu i wneud newidiadau. Maent yn ceisio gwybodaeth i helpu pobl i wneud dewisiadau am bethau sy'n cael effaith ar eu bywydau. Mae pobl yn cael cyfarfodydd unigol gyda'u gweithwyr allweddol ac mae ganddynt fynediad at wasanaeth eirioli. Mae pobl yn ymwybodol o'u hawliau ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau bob dydd.

Mae'r staff gofal yn annog ac yn cynorthwyo pobl i fod yn iach yn emosiynol ac yn gorfforol. Mae ganddynt gyswllt â gweithwyr iechyd proffesiynol ac yn monitro iechyd corfforol pobl. Mae'r staff gofal yn annog pobl i fod yn weithredol ac i fwyta'n iach. Mae gan bobl berthynas gadarnhaol gyda’r staff gofal a'r rheolwr ac maent yn gallu rhannu eu teimladau. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a chymorth cywir cyn gynted â phosibl, a bod y gofal a chymorth hyn yn cael eu hadolygu a'u ddiweddaru.

Mae'r rheolwr a’r staff gofal yn amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae staff gofal yn mynychu hyfforddiant diogelu, ac maent yn ymwybodol o sut i gadw pobl yn ddiogel a sut i weithredu os ydynt yn bryderus am eu lles. Mae systemau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r darparwr yn dilyn prosesau recriwtio diogel yn gywir i sicrhau bod staff gofal yn ddiogel i weithio gyda phobl.

Mae hunaniaethau a diwylliannau unigol pobl yn cael eu parchu. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn cyflogi nifer o staff gofal sy'n siarad Cymraeg. Er nad yw unrhyw un o'r bobl sy'n byw yng nghartref Gwynfa yn siarad Cymraeg  fel eu mamiaith, dywedodd y rheolwr wrthym y gall y gwasanaeth ddarparu aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn ystod pob shifft os oes angen. Gwnaeth y rheolwr ein hysbysu hefyd y gall dogfennau megis y datganiad o ddiben a chynlluniau personol pobl fod ar gael yn Gymraeg. Mae pobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn yr iaith a ffefrir ganddynt ac mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth Cymraeg.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis eu hunain. Mae pobl yn cyfrannu at eu cymuned ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol. Maent yn cael mynediad at weithgareddau cymunedol. Gallant ddewis gwneud pethau sy’n bwysig iddynt a chael bywyd cymdeithasol.

## Gofal a Chymorth

Mae pobl yn cael cydberthnasau da gyda staff gofal sy'n rhoi gofal cyson iddynt. Mae staff gofal yn cynnwys pobl, lle bynnag y bo modd, wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Roedd pobl yn cael eu trin gydag urddas a pharch er mwyn iddynt deimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae staff gofal yn ymdrin â materion sensitif gyda'r bobl mewn modd ystyriol. Maent yn gofyn i'r bobl sut i'w cefnogi orau, fel bod gofal yn unigol i bob unigolyn. Mae’r ffordd a rennir hon o weithio wedi arwain at bobl yn gwneud cynnydd sylweddol ers symud i'r cartref. Mae staff gofal yn adolygu anghenion iechyd pobl ac maent yn eu hannog i gadw'n iach a dilyn ffordd iach o fyw. Mae pobl yn cofrestru gyda gwasanaethau iechyd wrth gyrraedd y cartref. Mae'r cartref yn cyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr iechyd proffesiynol, sy'n arwain at welliannau i lesiant pobl. Mae'r cartref yn ceisio gwasanaethau arbenigol ychwanegol pan fydd angen.

Mae pobl yn cwblhau cynlluniau personol gyda’u gweithiwr allweddol. Mae'r cynlluniau'n cynnwys yr hyn sy'n bwysig iddynt a'u dymuniadau a'u nodau. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth ymddygiad cadarnhaol, sy'n rhoi dulliau unigol i staff gofal fynd i'r afael ag ymddygiadau penodol. Mae'r rheolwr a staff gofal yn nodi risgiau ac yn eu hadolygu'n rheolaidd a'u rheoli'n ddiogel. Mae staff gofal yn cydnabod newidiadau mewn hwyliau ac ymddygiadau, ac maent yn annog a chynorthwyo pobl i fynegi eu hemosiynau mewn ffyrdd priodol. Mae pobl yn teimlo'n hyderus wrth rannu eu pryderon ac yn derbyn ymatebion gofalgar ac ystyrlon. Mae pobl yn cael eu hannog a'u cefnogi i gynnal cyswllt ag aelodau o'r teulu, pan fo'n bosibl, ac i sefydlu cyfeillgarwch. Mae staff gofal yn cydnabod unigrywiaeth pobl ac yn cydweithio i hyrwyddo eu hyder a'u hunan-barch.

Mae gan y darparwr drefniadau addas mewn grym i sicrhau bod pobl yn ddiogel. Mae'r mesurau mewn grym i leihau'r risg o bobl a staff gofal yn dal COVID-19 yn gyson â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae staff gofal yn gwneud profion COVID-19, yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ystod eu shifftiau, ac yn glanhau'r amgylchedd yn rheolaidd, ac mae'r ystafelloedd wedi'u hawyru'n dda.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion ac sy’n eu cefnogi i fwyhau eu hannibyniaeth. Gallant wneud pethau drostynt eu hunain gan fod y cynllun a'r cyfleusterau'n hyrwyddo annibyniaeth a hygyrchedd. Mae'r cartref yn darparu llety cyfforddus a glân sy'n cael ei gynnal a’i gadw yn dda. Mae'r ardaloedd cymunol yn helaeth ac wedi'u haddurno'n ddeniadol. Mae'r darparwr wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i amgylchedd mewnol y cartref ac mae cynlluniau ar gyfer gwelliannau pellach. Lleolir y brif swyddfa oddi ar y cyntedd ac mae swyddfa ychwanegol ar y llawr cyntaf, sydd hefyd yn ystafell wely i staff. Er bod yr ystafelloedd a ddefnyddir gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gartrefol ac wedi'u haddurno'n ddeniadol, mae angen gwella ystafell wely y staff. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi'r cartref a'u hystafelloedd gwely a'u bod yn gallu dewis yr addurniadau a chael pethau o'u cwmpas y maent yn eu hoffi. Mae gardd wrth gefn yr eiddo, ac mae cynlluniau i wella'r cyfleusterau parcio i staff ac ymwelwyr.

Mae contractau ar waith i wasanaethu'r boeler, y gosodiadau trydanol, y cyflenwad dŵr a'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd. Mae'r cartref yn nodi risgiau ar gyfer yr amgylchedd a gweithgareddau ac mae'n rhoi mesurau ar waith i’w lleihau, sy'n cynnwys y risgiau a berir gan COVID-19. Mae asesiad risg tân ac mae staff gofal yn trefnu ymarferion tân a phrofi offer diogelwch tân a synwyryddion mwg yn rheolaidd. Mae'r tîm rheoli a staff gofal yn adrodd problemau i'r darparwr, sy'n ymateb yn gyflym.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn amlinellu sut y bydd y cartref yn diwallu anghenion pobl yn natganiad o ddiben y cartref. Mae pobl yn derbyn copi o'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth cyn symud i mewn i'r cartref. Mae'r canllaw ar ffurf gyfeillgar ac mae'n egluro'r hyn sydd ar gael i bobl a sut y byddant yn derbyn gofal.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff gofal, sy'n cael eu recriwtio yn addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth a'r cymwyseddau i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae staff gofal yn cael eu hannog a'u cefnogi i ennill cymwysterau perthnasol i weithio gyda phobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r darparwr yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad er mwyn darparu'r gofal cywir i bobl. Mae rheolwyr llinell yn goruchwylio staff gofal bob chwe wythnos. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys trafodaethau am anghenion pobl, unrhyw faterion ymarfer, anghenion hyfforddi, a llesiant yr aelodau o staff eu hunain. Mae'r tîm rheoli yn cynnal cyfarfodydd tîm bob mis. Gwnaethom dderbyn adborth gan staff gofal trwy drafodaeth ac arolygon. Nododd y wybodaeth a ddarparwyd fod lefel uchel o gymorth gan y rheolwyr.

Gofelir am y bobl mewn cartref lle mae tîm rheoli cyson sy'n gosod safonau uchel a lle mae defnydd effeithiol o adnoddau. Mae tîm cyson o staff gofal hefyd, ac mae morâl yn dda ar y cyfan. Gwelsom staff gofal yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd yn ystod shifftiau, a gwnaethom ddarllen y cofnodion dyddiol y mae staff gofal yn eu cwblhau i'w gilydd. Mae staff gofal hefyd yn cwblhau cofnodion gwybodaeth ychwanegol os yw unigolyn wedi gwneud cais, neu i rannu gwybodaeth arwyddocaol arall.

Mae gan y darparwr systemau sicrhau ansawdd ar waith i fonitro gweithrediad y cartref a chynnal safonau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref wyneb yn wyneb, neu'n rhithwir yn ystod y cyfyngiadau symud, o leiaf bob tri mis. Mae'n siarad â phobl, staff gofal a'r rheolwr. Mae hefyd yn gwirio cofnodion ac yn ysgrifennu adroddiadau ar eu canfyddiadau sy'n nodi unrhyw feysydd i'w datblygu.

| Meysydd i’w gwella a chamau gweithredu yn ystod yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Cyflawnwyd |
| --- |

| Meysydd i’w gwella a chamau gweithredu yn ystod yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Ni chyflawnwyd | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
| --- | --- |
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad cyhoeddi** 21/12/2021

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi